# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel.**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mai 2023

Amser: 09.00 - 10.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13450

# Ar y safle

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd dirprwyon yn bresennol.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(6)350 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)351 - Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)354 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Cafwyd datganiad o fuddiant perthnasol gan James Evans AS. Hefyd, nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 3.3 SL(6)348 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(6)353 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(6)352 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(6)341 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 4.2 SL(6)349 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

### 5.1 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Gweinidog.

### 5.2 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion a Chyflyrau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog.

### 5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

## 6 Papurau i'w nodi

Nid oedd unrhyw bapurau i'w nodi.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2). Cytunodd y Pwyllgor y dylid ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ragor o eglurder, ac wedyn i drafod ei adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mewnfudo Anghyfreithlon

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mewnfudo Anghyfreithlon a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Cytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y cytundebau rhyngwladol a drafodwyd ar 24 Ebrill 2023 cyn cytuno arno.

## 12 Blaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor faterion sy’n gysylltiedig â'i flaenraglen waith.

## Made Negative Resolution Instruments

## Made Negative Resolution Instruments

## Affirmative Resolution Instruments